**Jo-Anne Daniels**
Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro/Interim Director General

Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg/
Education, Social Justice and Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Alyson Thomas
Prif Weithredwr Corff Llais y Dinesydd dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Drwy e-bost yn unig - alyson.thomas@llaiswales.org

Ein Cyf: CEO/CVB

21 Gorffennaf 2023

Annwyl Alyson,

**DYNODI SWYDDOG CYFRIFYDDU I GORFF LLAIS Y DINESYDD**

Yn gyntaf, hoffwn eich llongyfarch ar eich penodi yn Brif Weithredwr Corff Llais y Dinesydd dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol (y cyfeirir ato gan ei enw gweithredol Llais yn y llythyr hwn) o fis Ebrill 2023.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu i Lywodraeth Cymru wedi dirprwyo i mi'r gyfrifioldeb o sicrhau y gwneir dynodiadau Swyddog Cyfrifyddu priodol o ran Cyrff Hyd Braich (ALB) Llywodraeth Cymru. Fel y'i gosodir ym mharagraff 19(1) Atodlen 1 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (y Ddeddf), ysgrifennaf atoch i'ch dynodi yn Swyddog Cyfrifyddu (AO) ar gyfer Llais o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

Gosodir eich cyfrifoldebau a'ch dyletswyddau yn AO yn Nogfen Fframwaith Llais. Mae'n esbonio eich bod yn agored i gael eich gwysio, naill ai gyda mi neu wrth eich hun, i ymddangos ger bron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ar faterion sy'n ymwneud â'ch cyfrifoldebau fel AO.

Er mwyn cyflawni'ch cyfrifoldebau, mae arnoch angen ddealltwriaeth drwyadl o faterion rheoleidd-dra, priodoldeb, atebolrwydd a dichonoldeb, fel y maent yn effeithio ar y rhai mewn gwasanaeth cyhoeddus. Amgaeaf felly ddolen i gopi o *Rheoli Arian Cyhoeddus*

*Cymru* (WG24091 Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru), sy'n darparu gwybodaeth hanfodol a chanllawiau arfer gorau. Yn ogystal, dylech edrych ar gyngor a chanllawiau a gyhoeddir o dro o dro yng nghyfres llythyrau *Dear Accounting Officer (*DAO) Trysorlys Ei Fawrhydi a/neu Hysbysiadau Prif Swyddog Cyfrifyddu (PAO) yr Ysgrifennydd Parhaol ei hun.

Dylech hefyd fanteisio, cyn gynted ag y bo modd, ar yr hyfforddiant sydd ar gael i Swyddogion Cyfrifyddu newydd eu penodi. Gallwch wneud felly drwy fynychu un o'r cyrsiau a gomisiynir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru (am wybodaeth bellach, ffoniwch 03000 255311 neu e-bostiwch richard.sharer@llyw.cym).

Adolygir y dynodiad hwn ym mhen tri mis. Credaf y byddai'n help inni gael trafodaeth ragarweiniol. Bydd fy swyddfa yn cysylltu â chi yn y man i drefnu cyfarfod gyda chi i drafod blaenoriaethau a heriau'r rôl.

Gall y dynodiad gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg, wrth gwrs, os bydd deiliad fy swydd, neu y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn dod i'r casgliad nad ydych bellach yn person addas i ddwyn cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu. Ni chymerir y cam hwn, fodd bynnag, heb ymgynghori â chadeirydd Bwrdd y Corff, yr Athro Medwin Hughes, yr anfonaf gopi o'r llythyr ato.

Bydd unrhyw ymchwiliadau am gynildeb, effeithioldeb ac effeithiolrwydd Llais wrth ddefnyddio ei adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau yn cymryd i ystyriaeth yr is-adeiledd rheoli rhaglenni a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod sefydlu (hyd at 1 Ebrill 2023).

Cydnabyddwn fod gan y Bwrdd rôl ddiffiniedig ond cyfyngedig yn ystod y cyfnod sefydlu hyd at 31 Mawrth 2023, ac, o ystyried y pwerau cyfyngedig a oedd ar gael i Llais yn ystod y cyfnod hwnnw, ei bod wedi effeithio ar y penderfyniadau y gellid eu gwneud. Yn ystod y cyfnod hwn, Chris Jones, yr Uwch-swyddog Cyfrifol oedd yn gyfrifol yn y pen draw am benderfyniadau a wnaethpwyd yn rhan o'r rhaglen a'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol gan Judith Paget. Fodd bynnag, hoffwn gydnabod y trefniadau gweithio mewn partneriaeth oedd ar y gweill a, thrwy gydol y cyfnod sefydlu, eich bod chi a Bwrdd Llais â rhan ym mhob penderfyniad y rhaglen sefydlu drwy'r trefniadau rheoli rhaglenni ac y gofynnwyd i chi gymryd penderfyniadau mewn egwyddor a chyn cadarnhau ar lefel rhaglen er mwyn sicrhau alinio strategol gyda Llais pan fo gan y penderfyniadau effeithiau ar ôl 31 Mawrth 2023.

Anfonaf gopïau o'r llythyr hwn at Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru, a Faye Bowen, Clerc Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru.

Yn gywir,



Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro/Interim Director General
Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg/
Education, Social Justice and Welsh Language